**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | A Pugh | R V Smith |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): M Durke, T M White

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

**17. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 23 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorydd A S Lewis gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 23 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

3) Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies, A S Lewis a R C Stewart gysylltiad personol â Chofnod 28 "Hwb Cadernid Cymunedol y Tabernacl Treforys".

**18. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2023.

**19. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**20. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**21. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**22. Arweinyddiaeth, Cynhwysiad a Llywodraethu: Adeiladu Rhagoriaeth yn Ysgolion Abertawe. (Adroddiad y Pwyllgor Cyflenwi Corfforaethol Addysg a Sgiliau)**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y llawlyfr, y polisi a'r strategaeth a ddatblygwyd yn dilyn gwaith y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau yn 2022-2023.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Llawlyfr newydd i Benaethiaid ac Uwch-arweinwyr sydd wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Cymeradwyo'r Polisi Presenoldeb newydd ar gyfer Abertawe a fydd yn sail i waith amcan presenoldeb y Strategaeth Cynhwysiad sydd wedi'i atodi yn Atodiad B yr adroddiad.

3) Cymeradwyo'r Strategaeth Cefnogi Cyrff Llywodraethu a'r Cynllun Gweithredu Datblygu Llywodraethu Ysgolion i gefnogi recriwtio a chadw llywodraethwyr ysgolion sydd wedi'i atodi yn Atodiad C ac Atodiad D yr adroddiad.

**23. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd**:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Mayals | Dr Felicity Padley |
| 2) | Ysgol Gynradd Pentrechwyth | Julie Buck |
| 3) | Ysgol Gynradd Pentre'r Graig | Y Cyng. Andrea Lewis |
| 4) | Ysgol Gynradd Waun Wen | Helen Jones |

**24. Monitro Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer diwedd blwyddyn 2022/2023.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi perfformiad y cyngor wrth gyflawni amcanion lles y cyngor yn 2022/23.

2) Cymeradwyo'r defnydd o'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau gweithredol ynghylch dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**25. Alldro Ariannol Refeniw 2022/23.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar yr alldro ariannol refeniw ar gyfer 2022/2023.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig gwerth £6.5 miliwn y manylwyd arnynt yn Adran 6.3 a 6.4 a 6.5 yr adroddiad.

**26. Alldro Refeniw 2022/23 - Cyfrif Refeniw Tai (CRT).**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth a oedd yn manylu ar alldro CRT Dinas a Sir Abertawe o'i gymharu â'r gyllideb refeniw gymeradwy ar gyfer 2022/2023.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig gwerth £5.169m y manylwyd arnynt yn Adran 2.1 yr adroddiad.

**27. Polisi a Phroses Cyflwyno Grantiau.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Les adroddiad a oedd yn darparu templed ac arweiniad ar gyfer rhoi grantiau o fewn Cyngor Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Polisi a'r Weithdrefn Rhoi Grantiau.

## 28. Hwb Cadernid Cymunedol y Tabernacl Treforys.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cynorthwyo Sefydliad Ymgorfforedig Elusennol 'Tabernacle, Morriston Congregation', mewn cynllun cyfalaf ar gyfer Capel y Tabernacl, Treforys sy'n adeilad rhestredig Gradd 1. Mae'r adeilad yn ased Trydydd Sector, ac mae'r cynllun yn cynnwys adnewyddu a gwelliannau, i ehangu'r defnydd cymunedol/busnes. Rôl y Cyngor fydd rheoli'r prosiect adeiladu cyfalaf a'r ffynonellau cyllid cysylltiedig yn unig.

**Penderfynwyd:**

1) Awdurdodi'r cyngor i ymrwymo i Gytundeb Cydweithio gyda Sefydliad Ymgorfforedig Elusennol 'Tabernacle, Morriston Congregation'.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyfreithiol i gwblhau telerau'r Cytundeb Cydweithio drafft sydd wedi'i atodi yn Atodiad A yn yr adroddiad a chychwyn unrhyw ddogfennaeth berthnasol i amddiffyn buddiannau'r cyngor.

3) Awdurdodi'r cyngor i dderbyn arian grant ar ran Sefydliad Ymgorfforedig Elusennol 'Tabernacle, Morriston Congregation', goruchwylio talu anfonebau a chynorthwyo gyda hawliadau grant.

## 29. Gwahardd y cyhoedd

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 30. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**31. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - RhGA7 - Ailddatblygu 277-278 Stryd Rhydychen - prosiect hwb cymunedol. (llafar)**

Cyflwynodd y Cynghorydd T M White yr adborth craffu cyn penderfynu.

**32. RhGA7 - Ailddatblygu 277-278 Stryd Rhydychen - prosiect hwb cymunedol.***

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol ac Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol i neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.20 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 20 Gorffennaf 2023 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 25 Gorffennaf 2023 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 26 Gorffennaf 2023 |